# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 7

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

## PENNOD 4

TREFNIADAU CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR GYFER PRIF GYNGHORAU NEWYDD

### 143 Adroddiadau gan y Panel mewn perthynas â chynghorau cysgodol a phrif gynghorau newydd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Rhan 8 o Fesur 2011 yn gymwys yn achos cyngor yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 142.

(2) Mewn perthynas â'r adroddiad cyntaf o dan Ran 8 o Fesur 2011 sy'n ymwneud (yn llwyr neu'n rhannol) â'r cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd ("yr adroddiad cyntaf")—

(a) rhaid iddo gael ei gyhoeddi yn ddim hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd o dan adran 142 at y diben hwnnw, a

(b) caiff fod yn adroddiad blynyddol neu'n adroddiad atodol, yn ddarostyngedig i'r gofyniad a osodir yn rhinwedd paragraff (a) a'r gofynion o dan adrannau 147(2) a 148(1) ac (1A)(a) o Fesur 2011.

(3) Nid yw adran 148(1A)(b) o Fesur 2011 (terfyn amser ar gyfer cyhoeddi) yn gymwys mewn perthynas â'r adroddiad cyntaf os yw'n adroddiad atodol.

(4) Pan fo unrhyw adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol yn ymwneud (yn llwyr neu'n rhannol) ag—

(a) y cyngor cysgodol, neu

(b) y prif gyngor ar gyfer y brif ardal newydd ac na fydd y cyngor hwnnw wedi ei sefydlu ar adeg cyhoeddi'r adroddiad,

rhaid i'r Panel gymryd y cam a nodir yn is-adran (5).

(5) Cyn cyhoeddi'r adroddiad o dan adran 147 o Fesur 2011, rhaid i'r Panel anfon drafft o'r adroddiad at y canlynol (os nad yw eisoes yn ofynnol i'r Panel wneud hynny o dan adran 147(8)(a) o Fesur 2011)—

(a) y cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro y bydd eu hardaloedd yn cael eu huno i greu'r brif ardal newydd;

(b) y cyngor cysgodol (os caiff ei sefydlu);

(c) y personau (os oes rhai) a bennir at y diben hwnnw yn y cyfarwyddyd o dan adran 142.

(6) Caiff adroddiad atodol osod y gofynion a ganlyn ar y cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro y bydd eu hardaloedd yn cael eu huno i greu'r brif ardal newydd, neu ar y cyngor cysgodol—

(a) gofynion o fath a bennir yn adran 150(1) neu (3) o Fesur 2011;

(b) gofynion o fath a bennir yn adran 151(1) o'r Mesur hwnnw.

(7) Pan fo adroddiad atodol yn ymwneud (yn llwyr neu'n rhannol) â'r cyngor cysgodol, mae adran 150(2) o Fesur 2011 yn gymwys mewn perthynas â'r adroddiad hwnnw (i'r graddau y bo'n ei gwneud yn ofynnol i daliad gael ei wneud i'r cyngor cysgodol neu ganddo) fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag adroddiad blynyddol.

(8) Mae'r cyfeiriadau yn adrannau 153, 154 a 157 o Fesur 2011 at ofynion a osodir gan adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at ofynion a osodir gan adroddiad atodol yn rhinwedd yr adran hon.

(9) Rhaid i adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol bennu mewn perthynas â'r cyngor ar gyfer y brif ardal newydd (pa un a yw'n gyngor cysgodol neu'n brif gyngor ar adeg cyhoeddi'r adroddiad) yr wybodaeth a grybwyllir yn adran 146(3) o Fesur 2011.

(10) Rhaid i'r materion y mae'n ofynnol yn rhinwedd yr adran hon ac adran 142 eu cynnwys mewn adroddiad gan y Panel mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol y mae'r dyddiad trosglwyddo yn digwydd ynddi gael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

(11) Ond, os yw'r Panel yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, caiff, ar unrhyw adeg cyn y dyddiad trosglwyddo, gyhoeddi adroddiad atodol mewn perthynas â pha ran bynnag o'r flwyddyn ariannol gyntaf honno sy'n digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ei ôl.